‘Twrist’ yn Llangollen

Wedi gwledda rhyw ddydd Sadwrn ar un o ‘57 varieties’ H. J. Heinz, dyma gychwyn am Langollen i weld y *City of Truro*. Roedd hi’n siwrnai digon digyffro ar gefn y motobeic dros Fwlch yr Oernant hyd y rhuthrodd rhyw hen begor, ymhell dros ei bedwar ugain, i’r ffordd heb edrych wrth y Pondersosa, a’i lwyth hen ferched gydag ef. Byddwn wedi priodi â’i danc petrol oni bai mai ond rhyw 30m.y.a. yr oedd yn ei wneud ac wedi gallu osgoi yr uniad digroeso hwn. Dyma ganu corn yn filain arno wrth ei basio, i’w ddeffro o’i drwmgwsg llesmeiriol.

Y City of Truro

Wedi cyrraedd Llangollen, clywais whei-i-i-i yn y pellter ac ymhen y rhawg, fe sleifiodd yr urddasol *City of Truro* i mewn. Na, nid ‘dinas a osodir ar fryn’ oedd hon, ond ‘dinas a osodwyd ar y cledrau’, yr injan stêm gyntaf i wneud can milltir yr awr oedd yn Llangollen ar fenthyg yn ystod yr ŵyl stêm, ond bellach yn byw yn yr Amgueddfa Reiffyrdd Genedlaethol yn Efrog.

‘Does dim mwy difyr ar brynhawn Sul na reid ar y moto beic cyn eistedd ar y platfform yn Llangollen yn sawru aroglau unigryw yr hen injins stêm a gwrando arnynt yn hisian ac ysgyrnygu’r cledrau. Ond peidiwch â meddwl y mod i’n *‘drên spotter’*, yn un o’r ‘anoracs’ hynny. Dyma’i gwylio yn cychwyn tua Charrog cyn troi i grwydro’r siopau.

Prynu cyfrol ddiddorol

Wrth grwydro un o heolydd y dref dwristaidd hon, dyma daro ar gopi 52 tudalen wedi treulio o *The Tourists’ Vocabulary* gan ac o wasg H. Humphreys, Caernarfon, gyda nifer helaeth a diddorol



CANRARVON ADVERTISEMENTS.

CARNARVON AND BANGOR.

THE LARGEST AND CHEAPEST DRAPERY ESTABLISHMENTS IN NORTH WALES.

LEWIS LEWIS,

NELSON EMPORIUM,

BRIDGE STREET, CARNARVON,

AND

LEWIS & THOMAS'S

NEW DRAPERY ESTABLISHMENT,

HIGH STREET, BANGOR,

The two largest Wholesale and Retail Drapery Establishments in the northern part of the Principality, have their Departments replete with an extensive assortment of First-class Drapery Goods, of the best manufacture, and at the lowest Market Prices.

FAMILY MOURNING.

FUNERALS FURNISHED.

GRAMMAR & COLLEGIATE SCHOOL,

CARNARVON.

ESTABLISHED A.D. 1838.

Principal—J. S. KIRK, M.A., Ph.D.

(Member of the General Council of the University of Glasgow and of the College of Preceptors); author of "An Essay on Education," &c.

Vice-Principal—THOMAS HODGES, Esq., C.M.

The Classes at the above Establishment are conducted with the design of imparting a sound Commercial, Mathematical, and Classical Education.

Pupils are successfully prepared for all the Preliminary Examinations connected with the learned Professions.

Dr. Kirk having purchased a lengthened term of lease of all those premises known as Orchard House, so well adapted for a Select Boarding School, begs to call the attention of his friends and the public to the superior accommodation he has now to offer for an increased number of Boarders. Orchard House is pleasantly and healthily situated, enclosed within its own grounds, &c., close to the town of Carnarvon.

Pupils have the benefit of good sea bathing in summer under the superintendence of a Master.

For terms, &c., apply to the PRINCIPAL, Orchard House, Carnarvon.

6

Hysbyseb yn y gyfrol



THE TOURISTS'

ENGLISH-WELSH

VOCABULARY;

CONTAINING

THE EXACT MODE OF PRONOUNCING

The Welsh Alphabet,

WITH A COLLECTION OF

USEFUL PHRASES AND FAMILIAR DIALOGUES.

BY H. HUMPHREYS.

CARNARVON:

PRINTED AND PUBLISHED BY H. HUMPHREYS, CASTLE SQUARE.

Wyneb-ddalen The Tourist

o hysbysebion o’r cylch hwnnw, yr hyn a’m denodd at y llyfryn i gychwyn. Mae’n debyg bod y gyfrol yn dyddio o tua 1880. Wedi cyfnewid ychydig arian, dyma ddychwelyd i’r orsaf i fyseddu’r llyfryn hyd y deuai’r trên nesaf i mewn.

Ceid nifer o adrannau, yr wyddor, sut i ynganu, y treigladau, llafariaid, yr acen ac yna restr o eiriau ac ymadroddion o wahanol fath, amser, y tywydd, anifeiliaid, arian, enwau’r siroedd a threfi a llawer mwy.

Mae’r hyn a gynhwyswyd yn adlewyrchu’r oes a iaith y cyfnod. Mewn rhai achosion defnyddir yr un geiriau megis *bookseller, bookbinder, gardener, looking glass*. Mae llawer o’r ymadroddion yn ofnadwy o ffurfiol a Beiblaidd ‘Pa sut y maent oll gartref?’, ‘Pa fodd y mae eich perthnasau?’

Ymadroddion ynghylch iechyd

Gyda’r ddarpariaeth feddygol gyfyng oedd ar gael a heipocondria yr oes, ceir nifer o ymadroddion ynghylch iechyd: ‘Pa fodd yr ydych yn ymdeimlo heddiw?, Pa beth sydd ar eich bachgen?’, ‘Yr wyf bron a llesmeirio’, ‘Efe a syrthiodd ac a friwiodd ei hun’, ‘Mae Mr___ yn y ddarfodedigaeth’, ‘Pa hyd y buoch yn sâl?’, ‘Mae yn ddrwg gennyf eich cael yn eich gwely’. ‘Yr wyf yn hytrach yn waeth nag yr oeddwn ddoe’, a sawl ymadrodd arall.

Ni wyddom heddiw am anawsterau teithio yn oes traed a cheffyl pan oedd yn rhaid mynd o gwmpas ynghanol pob tywydd a dioddef y canlyniadau. Roedd angen darparu mewn gwestai ar gyfer pobl oedd wedi gwlychu at eu croen. Ceir adran i roi ar ddeall eich anghenion i staff y gwesty ‘Sychwch fy nillad’, Y maent yn dra gwlyb, ‘A ydych wedi haearnio y dillad yn dda?’, ‘Yr wyf yn gobeithio nad yw y gwely yn damp’. ‘Pa beth ellwch ei roddi i mi i swper?’, ‘Galwch yr ostler’, ‘Rhowch ffid o geirch i fy ngheffyl’, ‘A ellwch chi bedoli fy ngheffyl?’, ‘Roddwch y ceffyl yn y garriage’. Gan mai creduriaid na ellir rhagweld eu hymateb yw ceffylau, ceir adran ar ddamweiniau, ‘Yr ydym wedi cyfarfod â damwain resynys’, Nid wyf wedi briwio llawer, ‘Anfonwch am y meddyg agosaf’. ‘Y mae yr echel wedi torri’. ‘Y mae yr olwyn ymaith’, ‘Y mae y siafftiau wedi torri’.

Pregethu’r efengyl yn ei burdeb

Ceir cyfarwyddiadau ynghylch holi am bysgota, rhywun i’ch tywys i wahanol fannau, llogi ceffyl, benthyg ambarêl neu ffon. Mae adran ar Lenyddiaeth a chrefydd, ‘A ellwch ddarllen Saesoneg?’ ‘Dylai llongwyr ddysgu morwriaeth’. ‘A ydych yn hoffi awdwyr yr oesoedd presennol?’ ‘Gwell gan rai ddarllen-yddiaeth na phrydyddiaeth’, Gwnaeth philosophy ei hoff astudiaeth’, A oes unrhyw gapelydd ymneillduwyr yn y gymdogaeth?’, ‘Y mae gennym ddynion o fawr dalentau a duwioldeb y rhai a bregethant yr efengl yn ei burdeb’, Amryw o’r gŵyr eglwysig ydynt hynod am eu diwydrwydd yn ymweled â’r claf, ac am eu haelioni tuag at y tlawd’. Ie, gallaf ddychmygu twristiaid yr oes hon yn holi ynghylch y pynciau hyn! Mae’r llyfr yn gorffen gyda’r Deg Gorchymyn.

Hysbysebion amrywiol

Yna, ceir nifer o hysbysebion i demtio’r ymwelwyr i wahanol westai yng Nghaernarfon, Llanberis, Llanllyfni, Capel Curig, Blaenau Ffestinioig, Penmachno a chyn belled â Machynlleth a Chonwy gyda’u ‘billiard and smoke room’, yn pwysleisio gwlau sych,bwyd da. prisiau rhesymol, stablau ac agosrwydd at yr orsaf reilffordd. Beth arall allai’r ymwelwyr fod ei angen? Hysbysebwyd y nifer o wasanaethau yn cynnig addysg, tynnu dannedd, wigiau, tynnu llun a siopau gwerthu gwahanol nwyddau yn ddillad a brethyn, bwydydd, dodrefn, gwinoedd a gemwaith ac ‘awrleisiau (clociau a watsys i chi a fi).

Do, bu’r ymweliad â Llangollen yn werth yr ymdrech, ac roedd cael gweld y *City of Truro* a’i dilyn cyn belled â gorsaf y Berwyn ble gadewais hi’n stemio yn bwyllog tua Charrog dros ganrif ar ôl ei hadeiladu hefyd yn brofiad hynod a chofiadwy na fyddwn wedi ei golli am y byd.

Diogelu cyfrol

Tynnwyd y gyfrol ymadroddion hon yn ddarnau a’i hail bwytho a’i rhoi o fewn cloriau caled lliain er ei diogelu i’r dyfodol. Tybed pwy ymhen can mlynedd fydd yn chwerthin ar ben ein hoes ni a’n darpariaeth i dwristiaid a pha drenau hynafol fydd yn eu denu i Langollen?

Gwyn Jones